
National Joint Registry

Working for patients, committed to excellence

# The National Joint Registry (NJR)

# **Galluogi Gwelliannau yng Nghanlyniadau Cleifion**

Sut y gallwch **chi** gyfrannu at waith yr NJR.



Mae Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau yn cofnodi a dadansoddi data ar newid cymalau i wella diogelwch cleifion a helpu i roi gwell gofal i gleifion

/nationaljointregistry

@jointregistry

www.njrcentre.org.uk

## Sut mae Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau yn helpu cleifion?

Mae Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau (NJR) yn cofnodi manylion llawdriniaethau newid cymalau er mwyn monitro'r canlyniadau, gwarchod diogelwch cleifion a gwella canlyniadau.

Wrth i chi gydsynio i gael eich cynnwys yn y gofrestrfa, petai fyth unrhyw broblemau, gallai'r NJR eich adnabod yn hawdd er mwyn cymryd camau dilynol trwy eich ysbyty.

Rhoddwn wybodaeth a thystiolaeth i:

- Rymuso cleifion trwy eu galluogi i gael gwybod mwy am yr impiadau sydd ar gael iddynt.
- Helpu llawfeddygon i ddewis y cymalau artiffisial (impiadau) gorau i gleifion.
- Gwella diogelwch cleifion trwy ddangos pa mor dda y mae impiadau, llawfeddygon ac ysbytai yn perfformio a gweithredu lle bo'r angen.
- Rhoi adborth i ysbytai, llawfeddygon a gwneuthurwyr impiadau am eu perfformiad i'w helpu i wella eu gofal i gleifion.
- Helpu llawfeddygon i benderfynu'n gyflym a oes angen i gleifion ddychwelyd i'r ysbyty os oes unrhyw broblemau yr adroddir arnynt gydag impiadau penodol.

## Pa wybodaeth a gesglir?

Bydd eich ysbyty yn cofnodi manylion penodol am eich llawdriniaeth yn y gofrestrfa. Ymhlith y manylion hyn mae'r math o impiad a dderbynioch, pa dechneg lawfeddygol a ddefnyddiwyd, i ba ochr o'ch corff yr aeth yr impiad, yn ogystal â'ch enw, eich dyddiad geni, rhywedd, manylion cyswllt a rhif GIG.

Mae'r NJR yn gofyn i'r holl gleifion roi eu caniatâd (cydsyniad) i gael cofnodi eu manylion personol yn gyfrinachol gyda manylion eu llawdriniaeth - fel hyn mae modd i ni fod yn fwy effeithiol yn ein rôl wrth warchod diogelwch cleifion (a chysylltu os oes angen). Hyd yn hyn mae oddeutu 3.7 miliwn o gofnodion cleifion wedi'u cynnwys yn y gofrestrfa.

Gofynnwn i chi am eich manylion cyswllt fel y gallwn anfon holiaduron atoch ynghylch eich profiadau. Mater o ddewis yw rhoi'r rhain a gallwch barhau i gymryd rhan yn y gofrestrfa heb gymryd rhan yn y rhain.

Mae'r NJR yn gofyn i gleifion am eu profiadau yn ystod eu triniaeth gan ein bod yn dymuno defnyddio'r adborth hwn i'n helpu i wella'r gofal iechyd a roddwn i'r holl gleifion.

Rhywbeth gwirfoddol yw cymryd rhan ac ni fyddwn yn rhannu dim o'ch gwybodaeth bersonol, ond bydd angen i'r ysbyty gymryd eich manylion cyswllt er mwyn i'r NJR allu defnyddio'r rhain i rannu'r holiadur â chi ar ôl eich triniaeth.

Rhywbeth gwirfoddol yw cydsynio ond bydd mwy **na 9 allan o 10** o gleifion yn cytuno i gael ychwanegu eu manylion at y gofrestrfa

Dylai eich ysbyty fod yn gofyn i chi a fyddech yn dymuno cydsynio a **chaiff ffurflen cydsynio cleifion yr NJR ei chwblhau**

## Beth fydd yn digwydd os na wnaf gydsynio?

Os dewiswch beidio â chydsynio i'ch manylion personol gael eu casglu gan yr NJR, cofiwch ddweud wrth y meddygon neu'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch. Ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith o gwbl ar eich triniaeth.

Oherwydd bod gofyn i'r NJR ddeall sut caiff mathau penodol o gymalau eu defnyddio ac yn lle, byddwn yn parhau i gasglu gwybodaeth am y math o lawfdriniaeth rydych wedi'i chael ond ni fydd eich manylion personol yn y cofnod hwn.

Mae angen i ni sicrhau bod ansawdd y wybodaeth a gasglwn yn drylwyr, fel na ddown i gasgliadau annheg ynghylch y ffordd y mae llawfeddygon, ysbytai a mathau o newid cymalau yn perfformio. I wneud hyn, o bryd i'w gilydd byddwn yn gofyn i ysbytai anfon rhestr o'r holl lawdriniaethau newid cymal y maent wedi'u gwneud, o system gyfrifiadurol eu hysbyty.

Yna gallwn gymharu'r data â rhestr y gofrestrfa i weld a oes unrhyw wybodaeth ar goll. Ar y rhestr hon bydd manylion personol cleifion nad ydynt wedi cydsynio. Ni chaiff y wybodaeth hon ei chadw yn y gofrestrfa a chaiff ei defnyddio'n unig i adrodd yn ôl i'r ysbyty ar gofnodion a allai fod ar goll.

Ni fydd modd i nifer fechan o gleifion sy'n cael y math hwn o lawdriniaeth gydsynio oherwydd bod ganddynt broblemau deall neu gadw gwybodaeth. Yn yr achosion hynny, bydd yr ysbyty yn gofyn i rywun arall - gofalwr neu berthynas fel arfer, ond weithiau mae modd i feddyg wneud hyn - ystyried a oes modd rhannu gwybodaeth gyda'r NJR.

Weithiau, nid yw'n bosib i'r NJR ganfod a yw claf wedi cydsynio ai peidio. Gall bod sawl rheswm am hyn, gan gynnwys cynnal eich llawdriniaeth yn sgil argyfwng. Dan yr amgylchiadau hyn, yng Nghymru a Lloegr mae gennym ganiatâd, yn gyfreithiol, i gofnodi eich manylion personol yn yr un modd ag y byddem pe baech wedi cydsynio.

Mae'r NJR wedi'i heithrio o'r rhaglen optio allan data Cenedlaethol yn Lloegr ac felly i optio allan o'r NJR, mae angen i chi ddweud wrth yr ysbyty sy'n eich trin nad ydych yn dymuno cydsynio i fod ar y gofrestrfa.







## Sut caiff yr NJR ei rhedeg

Partneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) sy'n rhedeg yr NJR a chaiff ei goruchwylio gan Bwyllgor Llywio (NJRSC) sydd wedi'i ddynodi fel 'Pwyllgor Arbenigol' NHS England. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Llywio yn adrodd yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr Meddygol y Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr.

Rheolir gwasanaethau craidd yr NJR dan ddau gontract gyda: NEC Software Solutions: i gasglu a rheoli data a thechnoleg; a Phrifysgol Bryste: i roi cymorth ystadegol a dadansoddi data, i gefnogi gwaith monitro canlyniadau'r NJR, gweithgarwch ymchwil a chyhoeddiadau.

Tîm rheoli'r NJR sy'n gyfrifol am reoli holl weithrediadau a chontractau'r NJR ac am gefnogi gwaith Pwyllgor Llywio'r NJR a'i is-bwyllgorau.

Ein nod yw cael cynrychiolwyr cleifion ar ein holl bwyllgorau, gan sicrhau bod ystyriaethau cleifion yn cael eu hymgorffori ar draws ein gwaith a'n gweithgareddau.

## Data'r NJR a gwybodaeth arall am ofal iechyd

Defnyddir gwybodaeth am lawdriniaethau a chleifion yn y gofrestrfa i gysylltu â gwybodaeth arall am setiau data gofal iechyd, gan gynnwys data a gedwir gan NJR Digital a Gwasanaeth Gwybodeg

Mae'ch preifatrwydd yn fater difrifol i ni. Gallwch weld ein polisi preifatrwydd yn

**www.njrcentre.org.uk/njrcentre/About-the-NJR/Privacy-Notice-GDPR**

### Y setiau data y gallai eich gwybodaeth fod wedi'i chysylltu â nhw:

Ystadegau ar Gyfnodau mewn Ysbyty, Data i Gymru ar Gyfnodau Cleifion, Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion, Data Cofrestriadau Sifil

GIG Cymru (gweler y blwch gwyrdd uchod i weld pa setiau data y gallai eich gwybodaeth NJR fod wedi'i chysylltu â nhw). Dadansoddir data sydd wedi'u cyfuno a sicrheir eu bod ar gael i lawfeddygon, ysbytai a gwneuthurwyr (heb eich manylion personol o gwbl).

O wneud hyn, bydd yr NJR yn gallu monitro diogelwch cleifion a chanlyniadau cleifion yn well. Mae hyn yn golygu y gall pobl a sefydliadau sy'n ymwneud â gwella llawdrininiaethau newid cymalau ddeall a datblygu triniaethau meddygol gwell sy'n rhoi gwell gwerth am arian.

Byddwn hefyd yn gofyn i NHS Digital (yn flynyddol) roi rhestr gyflawn i ni o bob claf sydd wedi cael llawdriniaeth i newid cymal, ynghyd â manylion eraill o setiau data cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys manylion cleifion nad ydynt wedi rhoi caniatâd i gael eu cynnwys yn y gofrestrfa.

Ni fyddwn yn cyfuno'r wybodaeth hon â'r wybodaeth yn y gofrestrfa ar gyfer cleifion sydd wedi gwrthod cydsynio a dim ond i sicrhau bod y data wedi'u cysylltu'n gywir y byddwn yn ei defnyddio.

## Sut gallaf ddefnyddio'r Offeryn Cefnogi Penderfyniad Claf?

Offeryn ar-lein yw'r Offeryn Cefnogi Penderfyniad Claf sy'n creu set unigryw a phwrpasol o ganlyniadau cleifion ar gyfer amrywiaeth o ffactorau sy'n gysylltiedig â llawdriniaethau ar y pen-glin a'r glun. Gan ddefnyddio data di-enw'r NJR, datblygwyd yr offeryn hwn gan Brifysgol Sheffield a Phrifysgol Bryste, gyda chefnogaeth ariannol gan Versus Arthritis. Bu'n fenter allweddol i'r NJR gynyddu budd cyhoeddus y data a gasglwyd.

Mae modd i gleifion ddefnyddio'r offeryn hawdd ei ddefnyddio hwn gartref neu mewn ymgynghoriad â'u meddyg teulu. Mae'n mesur ac amcangyfrif sgôr poen a gweithrediad cyn llawdriniaeth ac ar ei hôl. Dengys hefyd pa mor hir y gall impiad bara a, thrwy hynny gynorthwyo i ddeall yn well fanteision a risgiau llawdriniaethau newid cymal. Fodd bynnag, nid disodli ymgynghori â gweithiwr proffesiynol mo'i fwriad

Rydym yn ddiolchgar i'r mwy na miliwn o gleifion sydd eisoes wedi cael llawdriniaethau ac wedi ei gwneud yn bosib defnyddio eu data di-enw yn y gofrestrfa, i greu canlyniadau'r sgôr ar gyfer yr offeryn.

> Gallai defnyddio Offeryn Cefnogi Penderfyniad Claf yr NJR eich helpu i weld yr effaith y gallai'r llawdriniaeth newid cymal ei chael arnoch chi.
>
> **http://www.njrcentre.org.uk/njrcentre/Patients/Patient-Decision-Support-Tool**




**https://www.njrcentre.org.uk/patients/welcome-from-patient-representatives**

## Gwaith ymchwil meddygol

Gellid defnyddio gwybodaeth am lawdriniaethau a chleifion yn y gofrestrfa ar gyfer gwaith ymchwil meddygol ac arfarnu'r gwasanaeth er mwyn gwella'n dealltwriaeth o broblemau gyda chymalau a sut i'w trin.

O bryd i'w gilydd, gallai ymchwilwyr ofyn a allant gysylltu â chi er mwyn bod yn rhan o'r broses. Byddwn yn gofyn i chi'n gyntaf a byddant yn dilyn rheolau llym iawn wrth storio, rhyddhau a defnyddio'r holl ddata. Gallwch wrthod cymryd rhan ac ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar eich gofal.

Gallwch weld enghreifftiau eraill o sut byddwn yn defnyddio eich data ar gyfer gwaith ymchwil yn **www.njrcentre.org.uk**.

## I gael gwybod mwy am yr NJR:

www.njrcentre.org.uk
reports.njrcentre.org.uk

/nationaljointregistry

@jointregistry

The National Joint Registry

0845 345 9991

enquiries@njrcentre.org.uk

NJR Service Desk
C/o NEC Software Solutions UK
1st Floor iMex Centre
575-599 Maxted Road
Hemel Hempstead
Herts HP2 7DX

At hyn, mae'r NJR yn rhoi gwybodaeth am lawfeddygon ac ysbytai sy'n cynnal llawdriniaethau newid cymal yn **https://surgeonprofile.njrcentre.org.uk**

## Rhagor o wybodaeth

Bydd eich tîm gofal iechyd (meddyg teulu, llawfeddyg ymgynghorol, anesthetydd, nyrs, ffisiotherapydd, therapydd galwedigaethol) yn gallu ateb cwestiynau ynghylch eich gofal unigol.

Mae llawer o sefydliadau sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol i lywio a chefnogi cleifion sy'n cael llawdriniaeth newid cymal.

Dyma ddolen i ganllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol ar gyfer newid cymalau: https://www.nice.org.uk/guidance/conditions-and-diseases/musculoskeletal-conditions/joint-replacement

Dyma wefannau rhai sefydliadau cleifion defnyddiol eraill:

**Versus Arthritis**
www.versusarthritis.org

**Arthritis and Musculoskeletal Alliance (ARMA)**
www.arma.uk.net

**BoneSmart**
www.bonesmart.org

**©Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau. Chwefror 2023.**

Gyda diolch i Rwydwaith Cleifion yr NJR am eu syniadau a'u sylwadau gwerthfawr wrth ddatblygu'r daflen wybodaeth hon i gleifion.

National Joint Registry
Working for patients, committed to excellence